Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 757A2015

# Statws yr adroddiad

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o'r gwaith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn dweud beth yw'r drefn wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Gyda golwg ar y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan KPMG ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Gwybodaeth am yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwiliad o'r cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn 2014-15. Nid oedd dim materion yr oedd gofyn inni eu dwyn i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio | 9 |
| Adran 2: Trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus | 10 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o gydbwyso'r fantolen ar ddiwedd 2015-16 oherwydd yr arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi gan gomisiynwyr yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith ychwanegol y cytunwyd arno. | 10 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â gwendidau yn ei threfniadau llywodraethu, ac mae'r perfformiad yn gwella mewn meysydd pwysig, ond mae bylchau sylfaenol yn y seilwaith llywodraethu o hyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn. | 12 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran datblygu a gweithredu ei dulliau rheoli newid, ond mae cyfleoedd o hyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well mewn rhai meysydd. | 15 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 18 |
| Ffi archwilio | 19 |
| Risgiau archwilio sylweddol | 20 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn sgil y gwaith archwilio rwyf wedi'i wneud yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn golygu fy mod yn gallu cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal ag ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân yr wyf wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn â'r swyddogion, cytunir ynghylch eu cywirdeb ffeithiol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau yr wyf wedi'u cyhoeddi i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 7 Ionawr 2016. Wedyn, caiff ei gyflwyno i un o gyfarfodydd dilynol y Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Rydym yn annog Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ei ystyried, bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ei hun (www.archwilio.cymru).
5. Crynhoir prif negeseuon fy ngwaith archwilio o dan y penawdau a ganlyn.

## Adran 1: Archwiliad o'r cyfrifon

6. Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod am ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2014-15.
7. Yn ogystal â hynny, rhoddais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn esbonio'r dyletswyddau ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru), perfformiad yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â’r dyletswyddau hyn a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
8. Rwyf hefyd wedi casglu:
   - bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn gywir o ran eu sylwedd;
   - bod gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risgiau o gamddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol;
   - bod systemau ariannol a chyfrifyddu arwyddocaol yr Ymddiriedolaeth wedi'u rheoli'n briodol ac yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt.
9. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2014-15. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 o'r adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

**10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau ei bod yn defnyddio'i hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig sydd wedi archwilio pa mor gadarn yw trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth a pha mor ddigonol yw ei threfniadau llywodraethu, gan gynnwys y trefniadau i gynllunio'n effeithiol a mesur y cynnydd o ran llywodraethu a threfniadau ansawdd ers y llynedd. Rwyf hefyd wedi adolygu'r trefniadau sy'n cefnogi defnyddio adnoddau'n dda fel rhan o'r Asesiad Strwythuredig, a hwnnw'n cael ei lywio gan archwiliad o'r perfformiad mewn meysydd darparu gwasanaethau penodol. Yn sgil y gwaith hwn, dyma fy nghasgliadau:

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o gydbwyso'r fantolen ar ddiwedd 2015-16 oherwydd yr arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi gan gomisiynwyr yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith ychwanegol y cytunwyd arno.

**11.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar gael arian ychwanegol i fantoli’r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn 2015-16.

**12.** Rhagwelir y bydd y cynlluniau arbed ar gyfer 2015-16 yn tangyflawni o £0.511 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, a bod bron hanner yr arbedion a nodwyd yn rhai na fyddant yn codi ar batrwm cylchol. Er hynny, mae canfod arbedion cylchol wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â'r hyn a welwyd yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2014, roedd llai nag 20 y cant o'r arbedion yn rhai cylchol ond yn 2015 mae hyn wedi cynyddu i 50.8 y cant.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â gwendidau yn ei threfniadau llywodraethu, ac mae'r perfformiad yn gwella mewn meysydd pwysig, ond mae bylchau sylfaenol yn y seilwaith llywodraethu o hyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

**13.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei dull cynllunio strategol mewn blynyddoedd blaenorol wedi bod yn wan ac mae’n cryfhau hyn ar gyfer 2016-17 ymlaen. Mae wedi penodi uwch staff ychwanegol i hwyluso hyn.

**14.** Mae'r strwythur uwch reoli wedi'i adolygu er mwyn darparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen yn ddirfawr ar y tîm Gweithredol, megis y Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro newydd.

**15.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio'i strwythurau llywodraethu i'w gwneud yn fwy eglur ac effeithlon, ac mae'n elwa ar gael Bwrdd profiadol a gwybodus, ond nid yw'r systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd wedi eu datblygu’n ddigonol nac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.

**16.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dulliau rheoli perfformiad gyda help fframwaith perfformiad y cytunwyd arno â'r comisiynwyr. Mae'r perfformiad mewn meysydd sy'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth yn gwella.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran datblygu a chryfhau ei dulliau rheoli newid, ond mae cyfleoedd o hyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well mewn rhai meysydd

**17.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dulliau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a chynllunio ariannol ac mae'n meithrin ei gallu i reoli newid er mwyn gallu mynd i'r afael â blaenoriaethau. Mae'r cynlluniau strategol ar gyfer ystâd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n cael eu hadolygu.

**18.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da tuag at fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion mewn gwaith archwilio blaenorol, ond nid oes camau wedi'u cymryd eto i wella'r adroddiadau am berfformiad.

**19.** Nid yw mecanweithiau cyfathrebu'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn effeithiol bob tro o ran sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ei pholisïau gweithredol neu ei gweithdrefnau er bod Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Phartneriaeth newydd yn mynd i'r afael â hyn.

**20.** Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar y cymorth a'r cydweithrediad a gafwyd gan staff yr Ymddiriedolaeth a'i haelodau yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Gwybodaeth am yr adroddiad hwn

**21.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn rhestru prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio yr wyf wedi'i wneud rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Tachwedd 2015.

**22.** Caiff fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth ei wneud i ymateb i ofynion Deddf 2004[1]. Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynir imi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddynt wedi'u rhoi ar waith at y dibenion y'u bwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
- **c)** fy modloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei bod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**23.** O ran c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu heb gael sicrwydd, ar sail y ffynonellau tystiolaeth a ganlyn:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith sydd wedi'i wneud fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a oedd yn ymchwilio i'r trefniadau ar gyfer rheoli, llywodraethu ac atebolrwydd ariannol, a rheoli adnoddau;
- ymchwiliadau ar gyfer archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo'r rheini'n berthnasol i'm cyfrifoldebau.

**24.** Rwyf wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynir yn yr adroddiadau mwy manwl hyn, a cheir rhestr ohonynt yn Atodiad 1.

**25.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau a ganlyn:

- Adran 1: Archwiliad o'r cyfrifon
- Adran 2: Trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

**26.** Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf am y ffi archwilio y bydd angen imi ei chodi i dalu costau gwirioneddol cyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a bennwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

**27.** Yn olaf, mae Atodiad 3 yn rhestru'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio yn 2015 a sut y rhoddwyd sylw i'r rhain drwy'r archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: Archwiliad o'r cyfrifon

**28.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2014-15.

**29.** Y datganiadau hyn yw prif ddull y sefydliad o ddangos ei berfformiad ariannol ac mae'n nodi'r gwarged neu'r diffyg, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o ddangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus.

**30.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae gofyn imi roi fy marn am y canlynol:

- a ydynt yn rhoi golwg gwir a theg ar sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd rhag unrhyw gam-ddatganiad sylweddol - boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad;
- a ydynt wedi'u paratoi'n unol â'r gofynion statudol a gofynion eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu, cyflwyno a datgelu;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra’r gwariant a'r incwm.

**31.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol.

**32.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae'r archwilwyr hefyd wedi archwilio pa mor ddigonol yw:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth;
- systemau ariannol ar gyfer cynhyrchu'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn 2014-15. Nid oedd dim materion yr oedd gofyn inni eu dwyn i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

### Mae cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac maent yn gywir o ran eu sylwedd

**33.** Ni chefais ddim anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Cawsom wybodaeth yn brydlon ac mewn ffordd gymwynasgar ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

**34.** Mae ISA 260 yn ei gwneud yn ofynnol imi adrodd am faterion sy'n codi yn sgil fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn imi gyhoeddi fy marn archwilio am y cyfrifon. Nid oedd dim materion o sylwedd yr oeddem yn barnu bod angen adrodd yn eu cylch wrth Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 16 Gorffennaf 2015.

**35.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau a ganlyn hefyd:

- datganiad Cyfrifon Llywodraeth Gyfan - fy nghasgliad oedd bod gwybodaeth gyfun y gwrthbarti'n gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2015 a pharatowyd y datganiad yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - fy nghasgliad oedd bod y datganiadau cryno'n gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**36.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Elusen yr Ymddiriedolaeth wedi'i gwblhau o ran ei sylwedd ac nid oes dim materion wedi'u nodi y mae gofyn adrodd amdanynt wrth y Pwyllgor Archwilio. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol yn ffurfiol, gan y Bwrdd, ar 24 Medi 2015, a'u llofnodi gan swyddogion yr un diwrnod a bydd KPMG a'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cymeradwyo ym mis Rhagfyr 2015.

**37.** Adolygais amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth drwy asesu trefniadau rheoli'r Ymddiriedolaeth o ran y prif systemau rheoli cyfrifyddu a chyllidebu, y seilwaith TG lleol a gwaith yr Archwiliad Mewnol. Ni welais ddim gwendidau o sylwedd yn eich trefniadau rheolaeth fewnol a nodais fod y trefniadau rheoli hynny'n gweithredu yn unol â'r bwriad a'u bod yn ffurfio sylfaen ddibynadwy ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol. Byddaf yn adrodd am y rhain lle nad ydych eisoes yn ymwybodol ohonynt neu lle y gallant fod yn symptom o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol.

**38.** Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu arwyddocaol yr Ymddiriedolaeth wedi'u rheoli'n briodol ac yn gweithio yn unol â'r bwriad.

**39.** Casgliad fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru oedd bod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn cynllunio i ddarparu gwasanaeth Cymru gyfan sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

## Adran 2: Trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddion effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

**40.** Mae'n ofyniad statudol imi fy modloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud ystod o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd yn y meysydd gwella a nodwyd ers y llynedd;
- asesu'r cynnydd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod gwaith archwilio blaenorol.

**41.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau a ganlyn.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o gydbwyso'r fantolen ar ddiwedd 2015-16 oherwydd yr arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi gan gomisiynwyr yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith ychwanegol y cytunwyd arno

**42.** Er gwaethaf diffyg bach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ei thargedau ariannol ar ôl cael arian ychwanegol yn 2014-15.

- llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i roi cynlluniau arbed costau ar waith yn unol â'r gyllideb, ond nid oedd y rhain yn effeithiol o ran lleihau cyfanswm y costau oherwydd bod y gwariant ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen wedi codi'n sylweddol;
- unwaith eto, ni lwyddodd yr Ymddiriedolaeth i ragweld yn effeithiol ac yn gywir gyfanswm y gwariant yn 2014-15 oherwydd cynnydd nad oedd wedi'i ragweld yn y galw am wasanaethau rheng flaen;
- roedd gofyn iddi gael arian refeniw ychwanegol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i gyflawni ei dyletswydd statudol i fantoli’r gyllideb.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar gael arian ychwanegol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn 2015-16.

**43.** Ar gyfer 2014-15 llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i sicrhau gwarged o £0.2 miliwn. Llwyddwyd i sicrhau'r gwarged o £0.2 miliwn ar ôl cynyddu'r pecyn cyllido a oedd yn cynnwys atbreis o'r £5.6 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ac £8.75 miliwn arall ar gyfer Gwasanaethau'r Gaeaf gan Gydbwyllgor y Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

**44.** Roedd y cynnydd hwn yn y cyllid yn ofynnol oherwydd bod yr ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar wella perfformiad gweithredol a buddsoddi mewn staffio ac adnoddau eraill ar y rheng flaen. Digwyddodd hyn wrth ymateb i amcan Llywodraeth Cymru i wella cyfraddau ymateb ambiwlansys. Roedd pob parti yn cytuno bod hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar gostau.

**45.** Dangosir y buddsoddiad hwn yn y cynnydd yng nghost staffio yn ystod y flwyddyn (cynnydd o £4.1 miliwn o'i gymharu ag yn 2013-14), cynnydd o £1.3 miliwn ar gyfer Gwasanaethau a Chyflenwadau a £0.8 miliwn ar gyfer cymorth gan gyrff iechyd eraill megis Ambiwlans Sant Ioan.

**46.** Gan fod y trefniadau comisiynu newydd ond wedi cael eu sefydlu'n ddiweddar, nid yw wedi bod yn realistig i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynllun strategol tair blynedd ac felly mae'n gweithio ar sail cynllun blwyddyn ar gyfer 2015-16 (mae'n disgwyl i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo):

- Bydd y Bwrdd yn cael diweddariad ariannol llawn ym mhob cyfarfod. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud wrth y comisiynwyr a Llywodraeth Cymru am ei sefyllfa ariannol ac maent yn ymwybodol o'r amgylchiadau y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ynddynt.
- Mae'r perfformiad alldro yr adroddwyd yn ei gylch ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar gyfrifon Mis 7 yn dangos diffyg a gedwir gwerth £2.345 miliwn.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael dyraniad arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gyrraedd ei thargedau ariannol. Ym mis 7 roedd yr Ymddiriedolaeth yn amcangyfrif y byddai gofyn iddi gael £4.411 miliwn o incwm i'w galluogi i fantoli ei chyllideb. Byddai'r arian ychwanegol yn cynnig capasiti ychwanegol i ategu gwelliannau mewn perfformiad i gefnogi amcan Llywodraeth Cymru o wella cyfraddau ymateb ambiwlansys. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gostau ac mae pob parti wedi cytuno ar hynny.
- Y targed arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16 yw £4.537 miliwn a rhagwelir ym Mis 7 yr arbedir cyfanswm o £4.537 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn rhagweld tangyflawni o £0.511 miliwn am flwyddyn gyfan. Dim ond 50.8 y cant o'r arbedion a nodwyd sy'n rhai cylchol, felly bydd gan yr Ymddiriedolaeth waith i'w wneud i sicrhau ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar gynllunio arbedion. Fodd bynnag, mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r un cyfnod yn 2014 pan nad oedd ond 18 y cant o'r arbedion yn rhai cylchol eu natur. Yn lle'r arbedion anghylchol gwerth £1.981 yn ogystal â'r diffyg yn yr arbedion gwerth £0.511 miliwn , sef cyfanswm o £2.492 miliwn, bydd gofyn cael cynlluniau arbed cylchol yn rhan o'r cynllun

ariannol o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â gwendidau yn ei threfniadau llywodraethu, ac mae'r perfformiad yn gwella mewn meysydd pwysig, ond mae bylchau sylfaenol yn y seilwaith llywodraethu o hyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

**47.** Yn yr adran hon o'r adroddiad, ystyrir fy nghanfyddiadau am lywodraethu a rhoi sicrwydd i'r bwrdd, ac fe'u cyflwynir o dan y themâu a ganlyn:

- Cynllunio strategol
- Strwythur sefydliadol
- Rhoi sicrwydd i'r bwrdd a rheolaeth fewnol
- Rheoli perfformiad
- Llywodraethu gwybodaeth
- Y cynnydd wrth ymateb i broblemau llywodraethu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd.

**48.** Mae capasiti a gallu uwch reolwyr wedi'u gwella i ategu rhaglen newid heriol yr Ymddiriedolaeth. Llwyddwyd i sicrhau arbenigedd hollbwysig ym maes rheoli rhaglenni, cynllunio ariannol, a datblygu'r gweithlu ac mae portffolios rheoli wedi'u hailstrwythuro. Mae strwythurau llywodraethu wedi'u hadolygu a'u diwygio i wella atebolrwydd a rheoli'r agenda, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu dull mwy strwythuredig a disgybledig o reoli newid a chynllunio strategol. Mae bylchau pwysig yn y trefniadau llywodraethu megis dulliau cadarn o reoli risg a'r dulliau i roi sicrwydd ansawdd i'r bwrdd ac nid yw'r fframwaith rheoli perfformiad wedi'i roi ar waith eto, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bwlch ac wedi dechrau gweithio er mwyn cyflawni hyn yn 2016-17.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ei dulliau cynllunio strategol mewn blynyddoedd blaenorol wedi bod yn wan ac mae'n cryfhau hyn ar gyfer 2016-17 ymlaen. Mae wedi penodi uwch staff ychwanegol i hwyluso hyn.

**49.** Ni lwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig Tair Blynedd â Llywodraeth Cymru yn 2015. Y rheswm dros hyn yn rhannol oedd diffyg aeddfedrwydd y trefniadau comisiynu ar ddechrau'r flwyddyn, sydd bellach wedi gwella gryn dipyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun gweithredol 2015-16 (Blaenoriaethau Blwyddyn Un) a oedd, adeg yr adroddiad, yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r cynllun yn rhestru'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a fydd yn ofynnol ym mlwyddyn 2015-16 ac mae'n ystyried yr adborth gan Lywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans.

**50.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael anhawster i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig oherwydd diffyg capasiti ac arbenigedd cynllunio. Mae wedi cydnabod hyn ac wedi penodi Pennaeth Cynllunio a Datblygu Strategol, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid i hwyluso hyn.

51. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu rhaglen gynllunio a fydd yn galluogi ffordd fwy cynhwysol o fynd ati i wneud gwaith cynllunio strategol ar gyfer ei Chynllun Tymor Canolig Integredig o 2016-17 ymlaen ar sail Cynlluniau Cyflawni Lleol y cyfarwyddiaethau a hynny'n gyson â gweledigaeth ddiwygiedig yr Ymddiriedolaeth a'r themâu strategol. Mae cynllun prosiect a threfniadau rheoli priodol ar waith i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig erbyn mis Mawrth 2016.

### Mae’r strwythur uwch reoli wedi'i adolygu er mwyn darparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen yn ddirfawr ar y tîm Gweithredol

52. Mae'r Prif Weithredwr yn datblygu capasiti ei huwch dîm rheoli, megis y Cyfarwyddwr Cynllunio dros dro newydd, ynghyd â nifer o benodiadau ar lefel y drydedd haen yn 2015 i gefnogi'r Tîm Gweithredol. Mae arbenigedd ychwanegol ar waith bellach ar gyfer cynllunio strategol, rheoli rhaglenni, cyfathrebu, datblygu'r gweithlu a chynllunio ariannol. Mae rôl Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth wedi'i hadleoli i Bencadlys Cwmbrân i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y llywodraethu corfforaethol o ystyried bod y rhan fwyaf o weithrediadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth wedi'u lleoli yno bellach.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio'i strwythurau llywodraethu i'w gwneud yn fwy eglur ac effeithlon, ac mae'n elwa ar gael Bwrdd profiadol a gwybodus, ond nid yw'r systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd wedi eu datblygu ddigonol nac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson

53. Adolygwyd strwythur llywodraethu'r Ymddiriedolaeth gan Gadeirydd y Bwrdd yn 2015. Mae strwythur y pwyllgorau wedi'i newid i sicrhau ffocws ac atebolrwydd mwy eglur a gwell cydbwysedd o ran yr agenda. Mae gan yr Ymddiriedolaeth bellach dri is-bwyllgor (Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch, a Phwyllgor Archwilio). Mae'r Bwrdd Trawsnewid Strategol blaenorol bellach wedi'u gynnwys yn y Tîm Gweithredol yn sgil hyder cynyddol y swyddogion anweithredol yn y trefniadau rheoli rhaglenni yn yr Ymddiriedolaeth.

54. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn elwa ar aelodau anweithredol profiadol a gwybodus sy'n parhau i ddarparu lefel dda o her i'r tîm gweithredol.

55. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Sicrhau'r Bwrdd ar waith eto sy'n effeithiol ac yn gweithredu'n llawn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr risgiau corfforaethol sy'n cael ei hadolygu gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd o bryd i'w gilydd, ond mae gofyn cael proses rheoli risg fwy cadarn a digon o graffu gweithredol ynghyd â datblygu Fframwaith effeithiol i roi Sicrwydd i'r Bwrdd. Mae gwaith wedi'i gomisiynu i ddatblygu dulliau effeithiol ar gyfer rheoli risg a rhoi sicrwydd i'r bwrdd ac mae adroddiadau am hyn wedi'u cyflwyno, ond mae'n rhy fuan eto inni weld beth yw effaith y gwaith hwn.

**56.** Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i'r argymhellion yr wyf wedi'u gwneud fel rhan o'm rhaglen archwilio orfodol genedlaethol a lleol yn ystod 2015. Mae'r gwaith hwn wedi canfod bod yr Ymddiriedolaeth wedi ffurfioli a gwella'i dull o olrhain yr ymateb i argymhellion archwiliadau allanol a mewnol. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'n Hasesiad Strwythuredig yn 2014 wedi'u rhoi ar waith a'u clirio o'r pecyn olrhain. Fodd bynnag, mae cadernid prosesau rheoli mewnol yn dal i ddibynnu ar ddisgyblaeth gorfforaethol uwch reolwyr a chyfarwyddwr i adrodd ar y camau a gymerwyd ac mae hyn wedi bod yn anghyson, a hynny'n aml oherwydd bod adnoddau dan bwysau. Wrth ddatblygu'r tîm ar y lefel uchaf mae'r Prif Weithredwr yn ceisio gwella'r 'ddisgyblaeth gorfforaethol' hon wrth gwblhau gweithgareddau corfforaethol megis olrhain yr ymateb i argymhellion archwiliadau a chraffu ar risgiau corfforaethol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dulliau rheoli perfformiad gyda help fframwaith perfformiad y cytunwyd arno â'r comisiynwyr. Mae'r perfformiad mewn meysydd sy'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth yn gwella.

**57.** Mae datblygu'r model ymateb clinigol newydd gyda'r comisiynwyr wedi arwain at gyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr adroddir yn eu cylch bob chwarter i'r Cydbwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cael ei ddiwygio ac mae'n cynnwys cerdyn sgorio cytbwys drafft, ac ar sail hwnnw, bydd set ddiwygiedig o ddangosyddion lefel uchel yn cael eu datblygu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau model clinigol. Mae datblygu fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad i'r Ymddiriedolaeth wedi'i restru'n flaenoriaeth yng nghynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un ond nid yw wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo eto.

**58.** Cam cyntaf datblygu'r fframwaith yw sicrhau bod rheoli perfformiad yn bwrw gwreiddiau drwy gyfrwng gwell mecanwaith cynllunio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ei dulliau cynllunio i sicrhau eu bod yn gyson â'r amserlen cynllunio ariannol a datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016-2019

**59.** Gwelwyd arwyddion bod y perfformiad yn gwella mewn sawl maes megis lefelau salwch is a gwell amseroedd ymateb gan ambiwlansys. Mae lefelau salwch y staff wedi gostwng yn sylweddol o ryw naw y cant ym mis Gorffennaf 2014 i 6.5 y cant ym mis Gorffennaf 2015. Yn ystod mis cyntaf cyflwyno'r model ymateb clinigol newydd (Hydref 2015) gwelwyd yr Ymddiriedolaeth yn rhagori ar ei tharged ymateb i Alwadau Coch (65 y cant) gan sicrhau'r ymateb wyth munud ar gyfer 68.7 y cant o'r galwadau.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran datblygu a chryfhau ei dulliau rheoli newid, ond mae cyfleoedd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well mewn rhai meysydd

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dulliau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a chynllunio ariannol ac mae'n meithrin ei gallu i reoli newid er mwyn gallu mynd i'r afael â blaenoriaethau. Mae'r cynlluniau strategol ar gyfer ystâd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n cael eu hadolygu

**60.** Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi adolygu sut mae nifer o'r prif alluogwyr yn cael eu rheoli i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r gwaith hwn wedi dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd sy'n berthnasol i reoli adnoddau y soniais amdanynt yn Asesiadau Strwythuredig blynyddoedd blaenorol ond nid yw wedi datblygu cynlluniau effeithiol ar gyfer ei hasedau eto. Crynhoir y prif ganfyddiadau yn Arddangosyn 1

Arddangosyn 1: Asesiad Strwythuredig - prif alluogwyr i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

| Pwnc | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Y gallu i reoli newid | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dull mwy strwythuredig a disgybledig o reoli newid drwy reoli rhaglenni. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu byrddau rhaglenni ar gyfer pob un o'i chwe rhaglen newid ac mae gan bob un Swyddog Gweithredol i'w harwain. Mae byrddau'r rhaglenni'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyflawni'r canlyniadau a ddisgrifir yn y 'cynlluniau ar dudalen' perthnasol ac yn nogfennaeth y rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys rheoli amser, ac adnoddau, ynghyd ag unrhyw risgiau, problemau ac unrhyw fanteision penodol sy'n deillio o'r rhaglenni. Mae'r byrddau'n gyfrifol am reoli'r broses o gyflawni'r prosiectau sy'n rhan o'u rhaglen ac am ddwyn arweinyddion y prosiectau i gyfrif. Er bod y trefniadau rheoli rhaglenni'n gadarn, prin yw'r adnoddau gweinyddol ar gyfer y rhaglen a gallai hyn amharu ar gyflymder ei chyflawni. |
| Cynllunio'r gweithlu | Mae cytuno ar y Model Clinigol â'r comisiynwyr yn rhoi mwy o eglurder i'r Ymddiriedolaeth ynghylch datblygu ei chynllun gweithlu sy'n rhaglen allweddol ym mhortffolio newid yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella'i chapasiti a'i gallu i adrodd ar berfformiad y gweithlu, ac mae metrigau sy'n ymwneud â'r gweithlu, megis ynglŷn â salwch, yn dangos gwelliant o'i gymharu â'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. |

| Pwnc | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Ystadau ac asedau | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Rhaglen Amlinelliad Strategol ar gyfer ei hystâd y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei hystyried er mwyn cytuno iddi. Mae Cynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un yn cydnabod mai'r strategaeth ar gyfer ei hystâd fydd ei chynnal hyd at y safon ofynnol statudol, gan gydnabod bod y rhan fwyaf o'r adeiladau a weithredir gan yr Ymddiriedolaeth yn hen, bod gwaith cynnal a chadw sylweddol yn cronni ynddynt a bod gofyn eu rhesymoli. Bydd gofyn adolygu'r ystâd yn awr er mwyn ei chysoni â'r model clinigol ac anghenion y gweithlu. |
| Gwaith partneriaeth | Mae sefydlu'r Cydbwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys wedi hwyluso ymwneud mwy cydweithredol â phartneriaid. Mae Cynllun Blaenoriaethau Blwyddyn Un wedi gosod yn un o'i flaenoriaethau yn 2015-16 i ddatblygu cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid i helpu i wella gwaith partneriaeth ymhellach. |

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da tuag at fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion mewn gwaith archwilio blaenorol, ond nid oes camau wedi'u cymryd eto i wella'r adroddiadau am berfformiad.

**61.** Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i'r argymhellion sy'n rhan o'n rhaglen archwilio genedlaethol orfodol a lleol fel y trafodwyd ym mharagraff 56, canfu fy ngwaith y canlynol:

- Mae ein hargymhelliad yn 2014 i wella'r adroddiadau am berfformiad ym maes arbedion drwy adrodd ar y cynnydd gwirioneddol gyda chynlluniau arbed unigol i'r Bwrdd wedi cael sylw. Mae manylion unrhyw wyro oddi wrth y cynllun arbedion yn cael eu rhoi ar gyfer prosiectau unigol bellach mewn atodiad i'r adroddiad cyllid i'r Bwrdd.
- Mae'r argymhelliad yn 2014 ynghylch adolygu'r strwythurau llywodraethu er mwyn helpu i egluro rolau ac i wella'r cydbwysedd rhwng agendâu wedi'i gwblhau a diwygiadau wedi'u gwneud i'r strwythur llywodraethu.
- Mae'r argymhelliad i adolygu effeithiolrwydd y Grŵp Dysgu Sefydliadol i hybu'r dysgu yn sgil adborth defnyddwyr wedi cael sylw. Mae'r Grŵp wedi adolygu a diwygio'i gylch gorchwyl ac wedi newid ei aelodaeth i gynnwys cyfraniad anweithredol a gweithredol. Bydd yn cynnal nifer o adolygiadau manwl bob blwyddyn o'r risgiau a nodir drwy gyfrwng adborth gan gleifion a defnyddwyr.
- Nid yw'r argymhelliad yn 2014 i wella'r adroddiadau am berfformiad wedi cael sylw. Er bod fformat yr adroddiad wedi gwella nid yw'n defnyddio meincnodi allanol i gymharu perfformiad â'r perfformiad diwedd blwyddyn a ragwelir. Mae adroddiadau am berfformiad hefyd yn dal i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd ddau fis yn hwyr. Mae'r newidiadau i'r adroddiad perfformiad yn dibynnu ar y fframwaith cynllunio a pherfformiad sy'n datblygu.

Nid yw mecanweithiau cyfathrebu'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn effeithiol bob tro o ran sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ei pholisïau gweithredol neu ei gweithdrefnau.

**62.** Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad ar faterion a godwyd drwy ohebiaeth ag Aelod o'r Cynulliad nad oedd sylwedd i'r rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd. Fodd bynnag, roedd yn amlwg pam roedd aelodau o'r staff wedi codi'r pryderon hyn. Felly, nid oes gennyf reswm dros amau nad yw'r materion hyn wedi'u codi'n gwbl ddilys.

**63.** Er nad oedd modd cyfiawnhau'r pryderon mwyaf difrifol a godwyd, sef y posibilrwydd bod amseroedd ymateb yn cael eu llurgunio, a phryderon ynghylch diogelwch cleifion, mewn nifer fach o enghreifftiau, ni lwyddais i gael digon o sicrwydd gan Reolwyr yr Ymddiriedolaeth bod y pryderon a godwyd yn ddi-sail ac felly ein hargymhelliad oedd y dylai'r Ymddiriedolaeth wneud rhagor o waith adolygu mewnol mewn rhai meysydd penodol.

**64.** Roedd yn ymddangos bod sawl un o'r pryderon wedi codi oherwydd nad oedd yr aelodau hynny o'r staff a'u cododd yn ymwybodol o'r newidiadau i bolisïau gweithredol neu oherwydd nad oeddent yn llwyr ddeall systemau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth. Er bod adolygwyr wedi cael gwybod gan Reolwyr yr Ymddiriedolaeth fod ymdrech sylweddol wedi'i gwneud i wella'r cyfathrebu â'r staff, mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i ystyried effeithiolrwydd ei strategaeth a'i mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu â'r staff.

**65.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhagweithiol iawn yn annog aelodau o'r staff i godi pryderon yn fewnol. Mae'n siomedig felly bod rhai aelodau o'r staff yn dal i deimlo bod angen iddynt godi eu pryderon yn allanol. Rwy'n cydnabod y gall gymryd amser hir i newid diwylliant ac felly mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn dal i hybu ysbryd agored gan atgoffa'r staff am y mecanweithiau y gallant eu defnyddio i godi pryderon. Ers ein hadolygiad mae Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Phartneriaethau wedi'i benodi i gryfhau dull gweithredu'r Ymddiriedolaeth.

**66.** Er nad wyf yn bwriadu cynnal rhagor o ymchwiliadau manwl i'r pryderon a godwyd, rwyf wedi argymell sawl peth i'r Ymddiriedolaeth ei ystyried, ac ymateb iddo. Byddaf yn adolygu'r cynnydd wrth roi'r argymhellion hyn ar waith fel rhan o'n gwaith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn 2016.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwiliadau ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2015 |
| Barn am y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2015 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o'r materion a godwyd wrth ohebu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru | Hydref 2015 |
| Asesiad Strwythuredig 2015 | Rhagfyr 2015 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2015 | Chwefror 2015 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2015 yn pennu'r ffi archwilio arfaethedig, sef £139,500 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r gwir ffi yn unol â'r ffi ag amlinellwyd.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2015 yn rhestru'r risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut y rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb arfaethedig i'r archwiliad | Gwaith a wnaethpwyd a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Risg wrth Drin y Datganiad Ariannol | Gwneud gwaith ychwanegol mewn meysydd cyfrifyddu sy’n gofyn am farn. | Edrychwyd yn fanwl ar groniadau heb nodi dim.<br>Canfuwyd bod y dyledion wrth gefn wedi'u gorddatgan oherwydd gwall mathemategol mewn taenlen.<br>Gwelwyd bod yr holl eitemau elw a cholled fel arall yn gywir o ran eu sylwedd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru